**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfaod Y Cyngor

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 3 Mawrth 2022 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | B Hopkins | H M Morris |
| P M Black | D H Hopkins | D Phillips |
| M C Child | O G James | C L Philpott |
| N J Davies | Y V Jardine | S Pritchard |
| A M Day | J W Jones | A Pugh |
| P Downing | L R Jones | C Richards |
| C R Doyle | M H Jones | K M Roberts |
| M Durke | M Jones | B J Rowlands |
| C R Evans | S M Jones | M Sherwood |
| V M Evans | E J King | R V Smith |
| W Evans | E T Kirchner | A H Stevens |
| E W Fitzgerald | H Lawson | R C Stewart |
| R Francis-Davies | A S Lewis | G J Tanner |
| L S Gibbard | M B Lewis | M Thomas |
| F M Gordon | R D Lewis | L G Thomas |
| K M Griffiths | W G Lewis | W G Thomas |
| J A Hale | C E Lloyd | L J Tyler-Lloyd |
| D W Helliwell | P Lloyd | L V Walton |
| T J Hennegan | I E Mann | T M White |
| C A Holley | P M Matthews | |
| P R Hood-Williams | P N May | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw, J P Curtice, S J Gallagher, L James, P K Jones, M A Langstone, J A Raynor a/ac D G Sullivan

## 109. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch cysylltiadau personol a rhagfarnol posib cynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog gysylltiad i'w ddatgan yn unig. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw gysylltiad ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, M Durke, L S Gibbard, T J Hennegan, C A Holley, E J King, A S Lewis, R D Lewis, A Pugh, A H Stevens, G J Tanner a T M White gysylltiad personol â chofnod 115 "Datganiad Polisi Tâl 2022/23".

2) Datganodd y Cynghorwyr M B Lewis a P Lloyd gysylltiad personol â chofnod 116 "Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24-2025/26", cofnod 118 "Cyllideb Refeniw 2022/23" a chofnod 119 "Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2021/22-2026/27".

3) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 120 "Cyllideb Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2022/23”.

4) Datganodd y Cynghorydd T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 121 "Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2022/23”.

Swyddogion

5) Datganodd G Borsden, A Chard, C Davies, H G Evans, A Hill, D Howes, T Meredith, M Nicholls, P Roberts a B Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 115 "Datganiad Polisi Tâl 2022/23" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

   **Nodyn:** Ni adawodd A Chard a H G Evans gan fod angen iddynt aros i gyflwyno'r adroddiad, cynnal y bleidlais a chofnodi'r penderfyniad.

## 110. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Arbennig y cyngor a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022.

2) Cyfarfod Cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2022.

## 111. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol diwethaf y cyngor.

**112. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.**

**a) Cywiriadau/Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

**i) Eitem 8 "Datganiad Polisi Tâl 2022/23"**

Nododd yr aelod llywyddol y derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ers drafftio'r adroddiad. Caiff argymhelliad yr adroddiad ei ddiwygio'n briodol.

**ii) Eitem Frys - Rhybudd o Gynnig - Undod ag Wcráin**

Nododd yr aelod llywyddol y derbyniwyd eitem frys ac y byddai'n cael ei hystyried yn hwyrach yn y cyfarfod.

**113. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**a) Argyfwng yn Wcráin**

Trafododd Arweinydd y Cyngor y rhyfel sy'n parhau yn Wcráin. Dywedodd y dylid cynnal trafodaeth ehangach yn hwyrach dan yr Hysbysiad o gynnig - Undod ag Wcráin.

Dywedodd bod gan Gyngor Abertawe gysylltiadau eisoes ag Wcráin a'i fod ef a'r cyngor yn gweithio i gynorthwyo pobl Wcráin. Diolchodd i bobl am eu rhoddion ond dywedodd mai rhoi arian drwy'r elusennau cofrestredig yw'r ffordd orau o helpu ar hyn o bryd.

Diolchodd i'r Cynghorydd Clive Lloyd ac i Jeff Dong am eu gwaith yn ymwneud ag ystyried gwerthu asedau holl fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn gydag endidau Rwsieg. Gwneir hyn cyn gynted ag sy'n bosib ac o fewn fframwaith cyfreithiol.

**b) Bargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe - dathlu 5 mlynedd**

Nododd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi bod yn nigwyddiad dathlu 5 mlynedd o Fargen Dinas-Ranbarth Bae Abertawe ym Mharc y Scarlets yn gynharach y diwrnod hwnnw. Roedd £1.296 biliwn o'r £1.3 biliwn wedi'i glustnodi. Dywedodd mai Dinas-Ranbarth Bae Abertawe oedd yr unig Fargen Ddinesig sydd wedi clustnodi 99% o'r arian a dyma'r unig un sydd wedi cymeradwyo a dechrau cyflwyno pob prosiect.

Diolchodd i bawb sy'n rhan o Ddinas-ranbarth Bae Abertawe.

**c) Bae Copr - Agor yr Arena'n swyddogol**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor yr agorwyd yr Arena'n swyddogol ym Mae Copr yn gynharach y diwrnod hwnnw. Diolchodd i Lee Richards, Martin Nicholls, Huw Mowbray a swyddogion eraill am eu gwaith a'u llwyddiant wrth gyflawni'r Arena ar amser ac o fewn y gyllideb

Llongyfarchodd yr aelod llywyddol Arweinydd y Cyngor a diolchodd iddo am ei waith gyda Bae Copr a'r Arena.

**d) Parc Sglefrio Cyngor Cymuned y Mwmbwls**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y cyngor wedi cytuno i ymrwymo i gytundeb prydles gyda Chyngor Cymuned y Mwmbwls mewn perthynas â'r parc sglefrio. Ni chyflwynwyd unrhyw adolygiadau barnwrol mewn perthynas â phenderfyniad y Cabinet ac roedd felly'n falch y bydd y parc sglefrio'n cael ei gyflwyno cyn gynted â phosib.

**e) Ystyriaethau ynghylch Home Farm**

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at Home Farm. Cadarnhaodd y gwneir popeth sy'n bosib i gynnal yr adeilad hanesyddol a dod o hyd i ddefnydd newydd iddo.

**f) Adduned am Ymgyrch Etholiadol Teg a Pharchus**

Nododd Arweinydd y Cyngor fod y 22 o arweinwyr cyngor ar draws Cymru a holl Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol Cyngor Abertawe wedi cofrestru ar gyfer adduned am ymgyrch etholiadol teg a pharchus Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Mae'r adduned yn gofyn i bob ymgeisydd gymryd rhan mewn ymgyrch etholiadol teg yn seiliedig ar ymgyrchu cadarnhaol a theilyngdod, yn hytrach nag ymosodiadau personol a difenwol yn erbyn unigolion.

## 114. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Cyflwynwyd dau gwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Roedd y ddau'n ymwneud â chofnod 118 "Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2021/22-2026/27".

Ymatebodd yr Aelod perthnasol o'r Cabinet.

## 115. Datganiad Polisi Tâl 2022/23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad Polisi Tâl 2022-2023.

Dywedodd Rheolwr Strategol Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol y cytunwyd ar Gytundeb Tâl Soulbury 2021 a Chytundeb Tâl y Cyd-gyngor Cenedlaethol (CG) 2021-2022 ers drafftio'r adroddiad. Diwygiwyd yr argymhelliad i adlewyrchu hyn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl 2021-2022 sy'n cynnwys Cytundeb Tâl Soulbury 2021 a Chytundeb Tâl y Cyd-gyngor Cenedlaethol (CG) 2021-2022.

## 116. Budget Reports - Presentation Overview.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 adroddiad technegol bras mewn perthynas â'r adroddiadau am y gyllideb. Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau technegol cyffredinol.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor adroddiad bras am y gyllideb.

Dywedodd yr aelod llywyddol y dylid gofyn cwestiynau penodol ynghylch adroddiadau unigol a'u trafod pan fydd yr adroddiad hynny o dan sylw.

## 117. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2023/24 - 2025/26.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn manylu ar y prif dybiaethau ariannu ar gyfer y cyfnod ac yn cynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 i 2025/26 fel sail am gynllunio ariannol ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol.

## 118. Council Procedure Rule 4 "Smoking / Refreshments / Mobile Phones / Comfort Break.

Yn unol â Rheol 4 Gweithdrefn y Cyngor gohiriodd yr Aelod Llywyddol y cyfarfod er mwyn hwyluso egwyl o 10 munud.

## 119. Cyllideb Refeniw 2022/23.

Nododd yr Aelod Llywyddol y broses y byddai'n ei dilyn ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 yr adroddiad a oedd yn cynnwys diweddariad bach ynghylch ffigur setliad terfynol grant y llywodraeth leol. Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau technegol i Swyddog Adran 151. Ymatebodd Swyddog Adran 151.

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod dau ddiwygiad i'r gyllideb wedi dod i law. Un gan y Grŵp Llafur ac un gan y Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol/Grŵp Annibynnol y Gwrthbleidiau. Byddai diwygiad cyllideb y Grŵp Llafur yn cael ei ystyried gyntaf.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ddiwygiad y Grŵp Llafur. Cynigiwyd diwygiad y Grŵp Llafur gan y Cynghorydd R C Stewart a'i eilio gan y Cynghorydd D H Hopkins.

**Diwygiad y Grŵp Llafur**

*"Argymhellodd y Cabinet i'r cyngor y dylid diwygio'r gyllideb i sicrhau y telir isafswm cyflog o £10 i'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol yn Abertawe yn amodol ar y cyngor yn cytuno ar y polisi tâl diwygiedig, a fydd wedi'i drafod erbyn hyn gan ei fod wedi codi'n gynharach ar agenda'r cyngor hwn. Mae hyn eisoes wedi'i adlewyrchu'n llawn ym mhapurau'r gyllideb a gyflwynwyd i'r cyngor.*

*Argymhellodd y Cabinet ein bod yn mynd ymhellach ac yn ehangu'r dyhead cyflog hwn o £10 yr awr ar gyfer gweithwyr allweddol yr holl wasanaethau a gomisiynir yn uniongyrchol er mwyn gwella ar yr addewid o £9.90, a ariennir gan Lywodraeth Cymru o fewn y setliad ar gyfer agweddau ar ofal cymdeithasol.*

*Wrth gydnabod bod tâl yn fater ar gyfer cyflogwyr unigol a'u gweithwyr, gall y cyngor helpu i ddylanwadu ar drafodaethau rhwng cyflogwyr a gweithwyr i lwyddo i wireddu'r dyhead polisi hwn trwy sicrhau y neilltuir digon o gyllideb y cyngor wrth gomisiynu cyllidebau. Yn dilyn yr argymhelliad hwn gan y cyngor, mae Swyddog Adran 151 a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfrifo y byddai angen rhyddhau £400,000 o'r ddarpariaeth chwyddiant canolog ar gyfer 2022-23 a'i ychwanegu at gyllidebau comisiynu'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn bodloni'r gofyniad hwnnw.*

***Cynigiwn fod y cyngor yn penderfynu rhyddhau £400,000 o'r gyllideb sylfaenol a gedwir ar gyfer pwysau chwyddiant canolog ar gyfer 2022-23 i gyllidebau comisiynu'r gwasanaethau cymdeithasol yn y gyllideb derfynol** er mwyn darparu arian ychwanegol i alluogi cyflogwyr partner i ystyried talu £10 yr awr i'w staff. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cydraddoldeb o ran triniaeth, ni waeth ble a sut y mae pobl yn cael eu cyflogi yn y maes gofal cymdeithasol.*

*Rydym am fynd ymhellach ac ystyried cydraddoldeb o ran triniaeth i bawb a gyflogir ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus allweddol, nid yn unig mewn gofal cymdeithasol. Bydd angen gwneud gwaith yn y dyfodol gyda Chyngor Partneriaeth y Gweithlu a chydnabod y galwadau am Gyngor Partneriaeth Cymdeithasol ar draws Cymru, a fydd yn cynnwys pob rhan o'r sector cyhoeddus, sectorau cyflenwi ehangach a thrwy'r gadwyn gyflenwi yn y pen draw. **Cynigiwn fod y cyngor yn adolygu'r holl wasanaethau eraill a gomisiynir yn uniongyrchol y tu allan i ofal cymdeithasol.***

*Nid yw hyn o fewn gallu'r cyngor yn unig ac felly ni ellir ei drafod ar ei ben ei hun o fewn y gyllideb hon. Bydd yn esblygu dros amser, ond rydym yn bwriadu parhau i fod yn flaenllaw o ran tâl sy'n deg yn gymdeithasol ar gyfer gweithwyr uniongyrchol a'r holl weithwyr allweddol lle bynnag y byddwn yn comisiynu gwasanaethau'n uniongyrchol."*

Cefnogwyd y diwygiad a daeth yn rhan o'r prif argymhelliad.

Cynigiwyd diwygiad Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol/Grŵp Annibynnol y Gwrthbleidiau gan y Cynghorydd P M Black ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd C A Holley.

**Diwygiad y Democratiaid Rhyddfrydol/Grŵp Annibynnol y Gwrthbleidiau**

*"Mae'r cyngor yn nodi yr ystyrir bod gan oddeutu 850 i 1000 o eiddo preifat yn Abertawe gladin anniogel ac ni wnaed llawer o gynnydd wrth ddatrys y broblem hon yn y 4.5 blynedd ers trychineb Grenfell. Mae dioddefwyr y sgandal diogelwch tân hwn yn wynebu biliau o hyd at £60,000 ar gyfer gwaith diogelwch tân ar eu cartrefi diffygiol o ran diogelwch tân ac anwerthadwy, sy'n rhoi straen ariannol enfawr ar eu teuluoedd ac yn effeithio ar eu hiechyd meddwl.*

*Mae'r cyngor hefyd yn nodi bod Cynulliad Llundain wedi sefydlu Canolfan Cefnogi'n ddiweddar, sy'n galluogi pobl i fynd i sesiynau cyngor galw heibio ar faterion fel y canlynol:*

- *Cwblhau ceisiadau am arian ar gyfer potiau arian gwahanol y Llywodraeth.*
- *Cyngor ar y broses EWS1*
- *Rhoi cyngor i lesddeiliaid ar eu hawliau.*

*Mae'r cyngor yn credu y byddai sefydlu canolfan debyg yn Abertawe'n grymuso lesddeiliaid i fynnu eu hawliau a thrafod eu sefyllfa'n llwyddiannus, gan gyfleu neges gref gan y cyngor fod preswylwyr yn cael eu cefnogi ac na ddylent golli arian ac y byddwn yn sicrhau bod perchnogion adeiladau'n atebol.*

*Mae'r cyngor wedi penderfynu clustnodi £80,000 o'r Gronfa Cyfartalu Cyfalaf er mwyn sefydlu canolfan debyg a gwario'r arian ar ymchwil y defnyddiwr a datblygu'r we'n fewnol;  sicrhau mynediad trwy dendro cefnogaeth arbenigol ar gyfer rhydd-ddeiliaid a lesddeiliaid ar gyfer nifer o ddiwrnodau dros y flwyddyn (wedi'u rhannu dros y flwyddyn a'u cynnal yn Neuadd y Ddinas neu leoliad addas arall) er mwyn cael cyngor wyneb yn wyneb ar faterion megis ceisiadau am arian neu'r broses EWS1; tendro elusen/elusennau am gefnogaeth gyda chymorth iechyd meddwl arbenigol drwy'r hwb ar-lein a hefyd drwy weminarau sy'n canolbwyntio ar lesddeiliaid a gwaith allgymorth ar les; ac er mwyn hyrwyddo gwaith yr hwb."*

Penderfynwyd pleidleisio ar ddiwygiad y Democratiaid Rhyddfrydol/Grŵp Annibynnol y Gwrthbleidiau a chollwyd y bleidlais. Felly, parhaodd diwygiad y Grŵp Llafur yn gynnig annibynnol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyir y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022/23 fel y nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad yn ogystal â diwygiad y Grŵp Llafur.

2) Cymeradwyir Gofyniad y Gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23 fel y nodwyd yn Adran 9 yr adroddiad.

## 120. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2021/22- 2026/27

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 - 2026/27.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 - 2026/27 fel a fanylir yn Atodiadau A, B C, D, E, F a G yr adroddiad.

## 121. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - cyllideb refeniw 2022/23.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2022/23 a chynnydd rhent i eiddo o fewn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cynyddu rhenti'n unol â pholisi Llywodraeth Cymru fel a nodir yn Adran 3 yr adroddiad;

2) Cymeradwyo ffïoedd, taliadau a lwfansau fel yr amlinellwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

3) Cymeradwy'r cynigion Cyllideb Refeniw fel a nodir yn Adran 4 yr adroddiad.

## 122. Cyfrif Refeniw Tai - cyllideb a rhaglen gyfalaf 2021/22 - 2025/2026.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 a’r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad ar y cyd a oedd yn cynnig Cyllideb Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 a Chyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022/23 - 2025/26.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2021/22;

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2022/23 - 2025/26;

3) Lle caiff cynlluniau unigol yn Atodiad B eu rhaglenni dros y cyfnod 4 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, caiff y rhain eu neilltuo a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros 4 blynedd.

## 123. Penderfyniad statudol - dylid gwneud penderfyniadau yn unol â'r rheoliadau wrth bennu Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu nifer o benderfyniadau statudol i'w gwneud yn unol â'r Rheoliadau o ran gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2022-2023.

O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Gyllideb Refeniw 2022-2023 a hefyd y newid i'r setliad gan Lywodraeth Cymru, newidiwyd y ffigurau yn y penderfyniad statudol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi a mabwysiadu'r penderfyniadau statudol fel y'u hamlinellwyd.

2) Nodi bod y cyngor, yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2021, wedi cyfrifo'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2022/2023 yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd):

a) 93,114 oedd y swm a gyfrifwyd gan y cyngor, yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'i diwygiwyd, fel ei sylfaen Treth y Cyngor am y flwyddyn.

b) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---:|
| Llandeilo Ferwallt | 2,024 |
| Clydach | 2,639 |
| Gorseinon | 3,288 |
| Tre-gŵyr | 2,008 |
| Pengelli a Waungron | 441 |
| Llanilltud Gŵyr | 351 |
| Cilâ | 2,144 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 527 |
| Llangyfelach | 965 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,606 |
| Llanrhidian Isaf | 340 |
| Llwchwr | 3,477 |
| Mawr | 758 |
| Y Mwmbwls | 10,089 |
| Penlle'r-gaer | 1,434 |
| Pennard | 1,563 |
| Pen-rhys | 485 |
| Pontarddulais | 2,327 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,034 |
| Porth Einon | 478 |
| Reynoldston | 324 |
| Rhosili | 212 |
| Y Crwys | 712 |
| Cilâ Uchaf | 603 |

dyma'r symiau a gyfrifwyd gan y cyngor, yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel symiau ei sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

3) Caiff y symiau canlynol eu cyfrifo gan y cyngor ar gyfer y flwyddyn 2022/2023 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

(a) £826,498,085 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn amcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(2)(a) i (d) o'r Ddeddf.

(b) £302,484,634 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(3)(a), 32(3)(c) a 32(3a) o'r Ddeddf.

(c) £524,013,451 yw'r gwahaniaeth rhwng y cyfanswm yn 3(a) uchod a'r cyfanswm yn 3(b) uchod, ac mae'n swm a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn.

(d) £386,174,176 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy i Gronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, a'r Grant Cynnal Refeniw heb gymorth trethi annomestig dewisol.

(e) £1,480.33 yw'r swm yn (3)(c) heb y swm yn (3)(d) uchod, wedi'i rannu gan y swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn.

(f) £1,697,024 yw cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.

(g) £1,462.10 yw'r swm yn (3)(e) heb y canlyniad a roddir trwy rannu'r swm yn (3)(f) uchod â'r swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(h) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---|
| Llandeilo Ferwallt | 1,496.68 |
| Clydach | 1,514.29 |
| Gorseinon | 1,502.10 |
| Tre-gŵyr | 1,478.97 |
| Pengelli a Waungron | 1,482.51 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,477.10 |
| Cilâ | 1,472.59 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,477.09 |
| Llangyfelach | 1,486.97 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,557.99 |
| Llanrhidian Isaf | 1,481.22 |
| Llwchwr | 1,488.61 |
| Mawr | 1,551.81 |
| Y Mwmbwls | 1,520.09 |
| Penlle’r-gaer | 1,469.77 |
| Pennard | 1,519.15 |
| Pen-rhys | 1,488.45 |
| Pontarddulais | 1,515.36 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,500.79 |
| Porth Einon | 1,474.65 |
| Reynoldston | 1,500.68 |
| Rhosili | 1,485.68 |
| Y Crwys | 1,504.34 |
| Cilâ Uchaf | 1,493.61 |

dyma'r symiau a roddwyd trwy adio'r swm yn (3)(e) uchod a symiau'r eitemau arbennig sy'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o

ardal y cyngor a grybwyllwyd uchod, sydd wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn (2)(b) uchod, a'u cyfrifo gan y cyngor yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i anheddau yn rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(i) Rhannau o ardal y cyngor:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 997.78 | 1,164.09 | 1,330.38 | 1,496.68 | 1,829.27 | 2,161.87 | 2,494.46 | 2,993.36 | 3,492.26 |
| Clydach | 1,009.52 | 1,177.78 | 1,346.03 | 1,514.29 | 1,850.80 | 2,187.31 | 2,523.81 | 3,028.58 | 3,533.35 |
| Gorseinon | 1,001.40 | 1,168.30 | 1,335.20 | 1,502.10 | 1,835.90 | 2,169.70 | 2,503.50 | 3,004.20 | 3,504.90 |
| Tre-gŵyr | 985.98 | 1,150.31 | 1,314.64 | 1,478.97 | 1,807.63 | 2,136.29 | 2,464.95 | 2,957.94 | 3,450.93 |
| Pengelli a Waungron | 988.34 | 1,153.06 | 1,317.78 | 1,482.51 | 1,811.96 | 2,141.40 | 2,470.85 | 2,965.02 | 3,459.19 |
| Llanilltud Gŵyr | 984.73 | 1,148.86 | 1,312.97 | 1,477.10 | 1,805.34 | 2,133.59 | 2,461.83 | 2,954.20 | 3,446.57 |
| Cilâ | 981.72 | 1,145.35 | 1,308.96 | 1,472.59 | 1,799.83 | 2,127.07 | 2,454.31 | 2,945.18 | 3,436.05 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 984.72 | 1,148.85 | 1,312.96 | 1,477.09 | 1,805.33 | 2,133.57 | 2,461.81 | 2,954.18 | 3,446.55 |
| Llangyfelach | 991.31 | 1,156.53 | 1,321.75 | 1,486.97 | 1,817.41 | 2,147.84 | 2,478.28 | 2,973.94 | 3,469.60 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,038.66 | 1,211.77 | 1,384.88 | 1,557.99 | 1,904.21 | 2,250.43 | 2,596.65 | 3,115.98 | 3,635.31 |
| Llanrhidian Isaf | 987.48 | 1,152.06 | 1,316.64 | 1,481.22 | 1,810.38 | 2,139.54 | 2,468.70 | 2,962.44 | 3,456.18 |
| Llwchwr | 992.40 | 1,157.81 | 1,323.20 | 1,488.61 | 1,819.41 | 2,150.21 | 2,481.01 | 2,977.22 | 3,473.43 |
| Mawr | 1,034.54 | 1,206.96 | 1,379.38 | 1,551.81 | 1,896.66 | 2,241.50 | 2,586.35 | 3,103.62 | 3,620.89 |
| Y Mwmbwls | 1,013.39 | 1,182.29 | 1,351.19 | 1,520.09 | 1,857.89 | 2,195.68 | 2,533.48 | 3,040.18 | 3,546.88 |
| Penlle’r-gaer | 979.84 | 1,143.16 | 1,306.46 | 1,469.77 | 1,796.38 | 2,123.00 | 2,449.61 | 2,939.54 | 3,429.47 |
| Pennard | 1,012.76 | 1,181.56 | 1,350.35 | 1,519.15 | 1,856.74 | 2,194.33 | 2,531.91 | 3,038.30 | 3,544.69 |
| Pen-rhys | 992.30 | 1,157.68 | 1,323.06 | 1,488.45 | 1,819.22 | 2,149.98 | 2,480.75 | 2,976.90 | 3,473.05 |
| Pontarddulais | 1,010.24 | 1,178.61 | 1,346.98 | 1,515.36 | 1,852.11 | 2,188.85 | 2,525.60 | 3,030.72 | 3,535.84 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,000.52 | 1,167.28 | 1,334.03 | 1,500.79 | 1,834.30 | 2,167.81 | 2,501.31 | 3,001.58 | 3,501.85 |
| Porth Einon | 983.10 | 1,146.95 | 1,310.80 | 1,474.65 | 1,802.35 | 2,130.05 | 2,457.75 | 2,949.30 | 3,440.85 |
| Reynoldston | 1,000.45 | 1,167.20 | 1,333.93 | 1,500.68 | 1,834.16 | 2,167.65 | 2,501.13 | 3,001.36 | 3,501.59 |
| Rhosili | 990.45 | 1,155.53 | 1,320.60 | 1,485.68 | 1,815.83 | 2,145.98 | 2,476.13 | 2,971.36 | 3,466.59 |
| Y Crwys | 1,002.89 | 1,170.04 | 1,337.19 | 1,504.34 | 1,838.64 | 2,172.93 | 2,507.23 | 3,008.68 | 3,510.13 |
| Cilâ Uchaf | 995.74 | 1,161.70 | 1,327.65 | 1,493.61 | 1,825.52 | 2,157.43 | 2,489.35 | 2,987.22 | 3,485.09 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y cyngor | 974.73 | 1,137.19 | 1,299.64 | 1,462.10 | 1,787.01 | 2,111.92 | 2,436.83 | 2,924.20 | 3,411.57 |

dyma'r symiau a gyfrifwyd drwy luosi'r symiau yn (3)(g) a (3)(h) uchod â'r nifer sydd, yn ôl cyfanswm y boblogaeth a nodwyd yn Adran 5 (1) Y Ddeddf, yn gymwys i anheddau a restrir mewn band prisio penodol, wedi'u rhannu â'r nifer sydd, yn y gyfran honno, yn gymwys i anheddau a restrir ym mand D a gyfrifir gan y cyngor yn unol ag Adran 36(1) y

Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau'r anheddau a restrir yn y bandiau prisio gwahanol;

4) Nodi bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi nodi'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2022/2023 mewn preseptau a gyflwynwyd i'r cyngor yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | 201.41 | 234.97 | 268.54 | 302.11 | 369.25 | 436.38 | 503.52 | 604.22 | 704.92 |

5) Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn (3)(I) a (4) uchod, mae'r cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth leol 1992, yn gosod, trwy hyn, y symiau canlynol fel y symiau Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a gaiff eu dangos isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 1,199.19 | 1,399.06 | 1,598.92 | 1,798.79 | 2,198.52 | 2,598.25 | 2,997.98 | 3,597.58 | 4,197.18 |
| Clydach | 1,210.93 | 1,412.75 | 1,614.57 | 1,816.40 | 2,220.05 | 2,623.69 | 3,027.33 | 3,632.80 | 4,238.27 |
| Gorseinon | 1,202.81 | 1,403.27 | 1,603.74 | 1,804.21 | 2,205.15 | 2,606.08 | 3,007.02 | 3,608.42 | 4,209.82 |
| Tre-gŵyr | 1,187.39 | 1,385.28 | 1,583.18 | 1,781.08 | 2,176.88 | 2,572.67 | 2,968.47 | 3,562.16 | 4,155.85 |
| Pengelli a Waungron | 1,189.75 | 1,388.03 | 1,586.32 | 1,784.62 | 2,181.21 | 2,577.78 | 2,974.37 | 3,569.24 | 4,164.11 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,186.14 | 1,383.83 | 1,581.51 | 1,779.21 | 2,174.59 | 2,569.97 | 2,965.35 | 3,558.42 | 4,151.49 |
| Cilâ | 1,183.13 | 1,380.32 | 1,577.50 | 1,774.70 | 2,169.08 | 2,563.45 | 2,957.83 | 3,549.40 | 4,140.97 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,186.13 | 1,383.82 | 1,581.50 | 1,779.20 | 2,174.58 | 2,569.95 | 2,965.33 | 3,558.40 | 4,151.47 |
| Llangyfelach | 1,173.86 | 1,369.50 | 1,565.14 | 1,760.79 | 2,152.08 | 2,543.37 | 2,934.65 | 3,521.58 | 4,108.51 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,214.46 | 1,416.86 | 1,619.28 | 1,821.69 | 2,226.52 | 2,631.33 | 3,036.15 | 3,643.38 | 4,250.61 |
| Llanrhidian Isaf | 1,192.72 | 1,391.50 | 1,590.29 | 1,789.08 | 2,186.66 | 2,584.22 | 2,981.80 | 3,578.16 | 4,174.52 |
| Llwchwr | 1,240.07 | 1,446.74 | 1,653.42 | 1,860.10 | 2,273.46 | 2,686.81 | 3,100.17 | 3,720.20 | 4,340.23 |
| Mawr | 1,188.89 | 1,387.03 | 1,585.18 | 1,783.33 | 2,179.63 | 2,575.92 | 2,972.22 | 3,566.66 | 4,161.10 |
| Y Mwmbwls | 1,193.81 | 1,392.78 | 1,591.74 | 1,790.72 | 2,188.66 | 2,586.59 | 2,984.53 | 3,581.44 | 4,178.35 |
| Penlle'r-gaer | 1,235.95 | 1,441.93 | 1,647.92 | 1,853.92 | 2,265.91 | 2,677.88 | 3,089.87 | 3,707.84 | 4,325.81 |
| Pennard | 1,214.80 | 1,417.26 | 1,619.73 | 1,822.20 | 2,227.14 | 2,632.06 | 3,037.00 | 3,644.40 | 4,251.80 |
| Pen-rhys | 1,181.25 | 1,378.13 | 1,575.00 | 1,771.88 | 2,165.63 | 2,559.38 | 2,953.13 | 3,543.76 | 4,134.39 |
| Pontarddulais | 1,214.17 | 1,416.53 | 1,618.89 | 1,821.26 | 2,225.99 | 2,630.71 | 3,035.43 | 3,642.52 | 4,249.61 |
| Pontlliw | 1,193.71 | 1,392.65 | 1,591.60 | 1,790.56 | 2,188.47 | 2,586.36 | 2,984.27 | 3,581.12 | 4,177.97 |
| Porth Einon | 1,211.65 | 1,413.58 | 1,615.52 | 1,817.47 | 2,221.36 | 2,625.23 | 3,029.12 | 3,634.94 | 4,240.76 |
| Reynoldston | 1,201.93 | 1,402.25 | 1,602.57 | 1,802.90 | 2,203.55 | 2,604.19 | 3,004.83 | 3,605.80 | 4,206.77 |
| Rhosili | 1,184.51 | 1,381.92 | 1,579.34 | 1,776.76 | 2,171.60 | 2,566.43 | 2,961.27 | 3,553.52 | 4,145.77 |
| Y Crwys | 1,201.86 | 1,402.17 | 1,602.47 | 1,802.79 | 2,203.41 | 2,604.03 | 3,004.65 | 3,605.58 | 4,206.51 |
| Cilâ Uchaf | 1,191.86 | 1,390.50 | 1,589.14 | 1,787.79 | 2,185.08 | 2,582.36 | 2,979.65 | 3,575.58 | 4,171.51 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Holl rannau eraill ardal y cyngor | 1,176.14 | 1,372.16 | 1,568.18 | 1,764.21 | 2,156.26 | 2,548.30 | 2,940.35 | 3,528.42 | 4,116.49 |

## 124. Strategaeth Gyfalaf 2022/23- 2027/28.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Strategaeth Gyfalaf sy'n cyfeirio ac yn llywio'r rhaglen gyfalaf saith blynedd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf 2021/22-2026/27.

## 125. Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys,Dangosyddion Darbodus/Trysorlys, Strategaeth Fuddsoddi a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2022/23, Adolygiad Rheoli Trysorlys dros y Flwyddyn 2021/22

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn argymell y dylid cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2021/22.

**Penderfynwyd**:

1) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus (Adrannau 2-7 yr adroddiad);

2) Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi (Adran 8 yr adroddiad);

3) Cymeradwyo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) (Adran 9 yr adroddiad).

4) Nodi Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22 (Atodiad H yr adroddiad).

## 126. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r enwebiadau/diwygiadau i wahanol Gyrff y Cyngor.

**Penderfynwyd** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**Pwyllgor Disgyblu Prif Swyddogion**
Tynnu enw'r Cynghorydd J P Curtice.
Ychwanegu'r Cynghorydd D W W Thomas.

**Pwyllgor Apeliadau Disgyblu Prif Swyddogion**
Tynnu enw'r Cynghorydd E T Kirchner.
Ychwanegu'r Cynghorydd J P Curtice.

## 127. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

1) **‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A’**

Cyflwynwyd deuddeg (12) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd dau (2) 'gwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer' Rhan B ar eu cyfer.

## 128. Eitem Frys - Hysbysiad o Gynnig - Undod ag Wcráin

Dywedodd yr aelod llywyddol yn unol â pharagraff 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ei fod yn meddwl y dylai’r "Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorwyr R C Stewart, D H Hopkins, A S Lewis, M C Child, R Francis-Davies, L S Gibbard, E J King, A Pugh, R V Smith, A H Stevens, M Thomas, C A Holley, L R Jones a P N May mewn perthynas â'r Hysbysiad o Gynnig - Undod ag Wcráin" gael ei ystyried yn ystod y cyfarfod fel mater brys.

## 129. Rhybydd o Gynnig

Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorwyr R C Stewart, D H Hopkins, A S Lewis, M C Child, R Francis-Davies, L S Gibbard, E J King, A Pugh, R V Smith, A H Stevens, M Thomas, C A Holley, L R Jones a P N May.

**Rheswm dros y mater brys:** Gan fod Rwsia wedi cychwyn ymosodiad milwrol llawn ar Wcráin ar 24 Chwefror 2022, dyma'r unig gyfle i'r cyngor ystyried a thrafod y mater hwn.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd R C Stewart a'i eilio gan y Cynghorydd C A Holley.

*“Rydym yn gresynu wrth ryfelgarwch annerbyniol yr Arlywydd Putin yn erbyn pobl Wcráin, sydd wedi dod â rhyfel unwaith eto i gyfandir Ewrop.*

*Safwn mewn undod â phobl Wcráin.*

*Mae Abertawe yn adnabyddus fel dinas noddfa ac felly, safwn yn barod i gefnogi unrhyw bobl sy'n cael eu dadleoli yn dilyn y gweithredoedd ofnadwy a gymerwyd gan Arlywydd Rwsia drwy oresgyn gwladwriaeth sofran.*

*Nid yw ei gamau gweithredu'n parchu rheolau cyfraith ryngwladol neu'r Cenhedloedd Unedig ac mae'n cael ei gondemnio, yn iawn, gan genhedloedd democrataidd ledled y byd.*

*Byddwn yn cefnogi pob ymdrech i sicrhau datrysiad heddychlon a diplomyddol, ac osgoi gwrthdaro a cholli bywydau."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.55 pm

**Cadeirydd**